

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	30 Ionawr 2024
TEITL	Adroddiad Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith
AWDUR	Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianeg ac YGC

1. CEFNDIR

- 1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Iaith am wybodaeth ynghylch sut mae'r Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC yn gweithredu'r Polisi Iaith.
- 1.2 Mae'r Adran yn cynnwys ystod o wasanaethau gan gynnwys cynnal ffyrdd, cynnal asedau bwrdeistrefol, glanhau strydoedd ac ymgynghoriaeth peirianeg amlddisgyblaethol. Mae hefyd yn gyfrifol am reoli holl fflyd y Cyngor ac am weithredu'r gwasanaeth caffael rheoli categori amgylcheddol.
- 1.3 Oherwydd natur gwaith yr Adran, mae'n anorfod y bydd y rhan fwyaf o'n staff yn dod i gysylltiad ag aelodau'r cyhoedd. O ganlyniad, disgwylir i'r mwyafrif ohonynt o leiaf allu siarad Cymraeg i lefel dderbyniol er mwyn gallu delio'n uniongyrchol ag ymholiadau a, thrwy hynny, darparu profiad gwell i'n cwsmeriaid.
- 1.4 Fodd bynnag, gan fod gennym gynifer o weithwyr rheng flaen, mae wedi bod yn anodd yn hanesyddol pennu faint yn union sy'n bodloni dynodiadau iaith eu swydd. Fodd bynnag, mae'r Adran wedi goresgyn hyn i raddau helaeth yn ystod y 6 mis diwethaf fel yr eglurir yn yr adroddiad.
- 1.5 Dylid nodi, ers uno'r Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac YGC ym mis Medi 2022, fod yr adroddiad hwn bellach yn cymryd lle'r adroddiadau Pwyllgor Iaith a arferai gael eu paratoi gan yr adrannau ar wahân.

2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo

Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?

Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:

1. Iaith y teulu,
2. Iaith dysgu,
3. Iaith gwaith a gwasanaeth,
4. Iaith y gymuned
5. Ymchwil a Thechnoleg

Mae'r strategaeth gyfredol i'w gweld yma:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf>

Ateb:

Mae'r Adran yn darparu gwasanaethau rheng flaen ac yn ymfalchïo yn y ffaith bod y mwyafrif o staff yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, boed hynny ar lefelau amrywiol o allu.

Credwn ei bod yn hanfodol hyrwyddo'r iaith o fewn yr Adran er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigiwn i drigolion Gwynedd. Rydym yn rhaeadru pob cynnig o hyfforddiant a dderbyniwn gan y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg ymhlith ein timau ac yn eu hannog i fynychu'r sesiynau, os mai dim ond i loywi eu sgiliau ieithyddol presennol.

Rydym yn cynhyrchu Newyddlen Priffyrdd, Peirianeg ac YGC, yn ogystal â Bwletin YGC, yn rheolaidd ac mae'r rhain yn cael eu cylchreded i holl staff yr Adran yn Gymraeg (gweler Atodiadau 1 a 2). Gwerthfawrogi'r rhain, nid yn unig am eu cynnwys llawn gwybodaeth ond hefyd am eu hansawdd a'u defnydd o Gymraeg clir.

Mae gan YGC brofiad o osod stondinau mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol mawr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau ym meysydd peirianeg sifil ac adeiladwaith, ac i hysbysebu cyfleoedd gyrfa. Doedd eleni ddim gwahanol gyda stondinau'n cael eu codi yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol. Fodd bynnag, am y tro cyntaf, eleni roedd y stondinau hefyd yn cynnwys brandio ar gyfer yr Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC yn ei newydd wedd.

Bu'r Adran yn weithgar iawn yn ystod yr Eisteddfod gan gynnwys cynnal gweithgareddau a chystadlaethau ar themâu peirianeg, adeiladwaith ac amgylcheddol i bobl ifanc. Roedd y rhain yn gyfleoedd delfrydol i wneud argraff ar bobl ifanc y gallent gael gyrfa foddhaus yn y meysydd hyn drwy gyfrwng y Gymraeg a, thrwy hyn, cadw talent yn lleol.

Cyn yr Eisteddfod, cynhaliodd yr Adran gystadleuaeth i enwi'r bont ffordd newydd a oedd wedi'i lleoli ger y safle. Cysylltwyd â 3 ysgol leol i gynnig cyfle i'w disgyblion enwebu enwau ar gyfer y bont. Yna, dewisodd panel o beirianwyr, swyddogion amgylcheddol a'r Prifardd Meirion Macintyre Huws yr enw mwyaf addas, sef Pont Bodefail. Roedd mewnbwn Mei Mac yn cynnwys cyngor a barn am enwau lleol a Chymreig sy'n gysylltiedig â'r ardal. Cyflwynwyd y wobwr i'r disgybl buddugol ym Mhentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar y Maes. Mynychodd y wasg agoriad swyddogol y bont a chynhaliwyd y digwyddiad yn y Gymraeg. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i bwysigrwydd dewis enw Cymraeg addas yn dilyn ymgynghoriad gyda'r gymuned leol. Cynhaliwyd panel ar ddatblygu'r cynllun yn y Pentref Plant ac ar stondin y Cyngor gyda themâu gwahanol yn ddyddiol. Un o'r themâu oedd yr heriau sy'n wynebu menywod sy'n dymuno dilyn gyrfaedd yn y diwydiant peirianeg ac adeiladwaith.

Mae gan YGC gysylltiad agos â Sefydliad y Peirianwyr Sifil (Institute of Civil Engineers - ICE), sef y prif sefydliad peirianeg broffesiynol sy'n dyfarnu cymwysterau proffesiynol i beirianwyr sifil. Mae un o beirianwyr y gwasanaeth wedi'i benodi'n fentor dros y Cyngor ac mae'r gefnogaeth mae'n ei gynnig yn y Gymraeg wedi'i ymestyn i gynnwys peirianwyr yng Nghynghorau Ynys Môn a Chonwy.

Bu i un o swyddogion YGC ennill gwobr Myfyriwr y Flwyddyn Prifysgol Wrecsam gan yr ICE eleni am ei waith goleg. Roedd un elfen o'i waith yn cynnwys amlygu gwaith YGC yn yr Eisteddfod Genedlaethol, y Sioe Frenhinol a ffeiriau swyddi, gyda ffocws ar hybu'r iaith Gymraeg a chydaddoldeb.

Yn hytrach na phrynu systemau masnachol sy'n gweithredu yn uniaith Saesneg yn unig, mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi datblygu systemau eu hunain ar gyfer rheoli asedau fflyd y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r systemau yn ymddangos yn y Gymraeg yn gyntaf ac mae'n rhaid i ddefnyddwyr ddewis opsiwn i weithredu yn y Saesneg. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw systemau fflyd eraill sy'n cynnig y gwasanaethau yma yn y Gymraeg. Mae YGC yn darparu gwasanaeth cyfathrebu i randdeiliaid ar ran UK Highways ar gyfer y rhan o'r A55 rhwng Llandygai a Chaerdybi. Mae hyn yn golygu paratoi negeseuon pwysig dwyieithog am waith cynnal ac ati. Fel rhan o'r gwasanaeth, maent hefyd yn trefnu a mynychu cyfarfodydd 'galw heibio' yn lleol i rannu gwybodaeth yn ôl yr angen. Comisiynodd UK Highways YGC yn benodol oherwydd eu harbenigedd yn y maes a gallu'r staff i gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae YGC hefyd yn trefnu nifer o ddigwyddiadau 'galw heibio' yng Ngwynedd a thu hwnt er mwyn hysbysu trigolion am gynlluniau arfaethedig a derbyn eu barn amdanynt. Cynhelir y rhain yn ddwyieithog bob amser.

Yn ddiddorol, mae'r Adran wedi noddi rhifyn 2 mewn cyfres o 4 llyfr dwyieithog a gomisiynwyd gan Elusen Treftadaeth Menai, sef 'Llewod Pont Britannia' i annog plant, ac yn arbennig menywod, i ddilyn gyrfa peirianeg sifil. Mae'r llyfrau yn cael eu gwerthu yn Amgueddfa Treftadaeth Menai ac ar-lein.

Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau

- i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau Iaith).
- ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg)?
- iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwylieithog.

Ateb:

i. Sgiliau iaith staff

Mae'r Adran yn cyflogi 507 o staff; 120 yn y Gwasanaeth YGC a 387 yn y gwasanaethau a arferai fod yn rhan o'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol cyn yr ailstrwythuro ym mis Medi 2022.

Roedd ceisio canfod canran staff y cyn Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a oedd yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi wastad yn heriol. Roeddem yn credu bod hyn yn bennaf oherwydd diffyg cyfeiriadau e-bost gwaith ar gyfer ein gweithwyr llaw (tua 87% o holl staff yr Adran), a mynediad cyfyngedig i gyfrifiaduron a gliniaduron gwaith. Felly, fe aeth ati i weithio efo'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg i geisio darganfod dulliau eraill o hel y wybodaeth.

Adroddwyd ar y sefyllfa'n fanwl yn ein hadroddiad diwethaf i'r Pwyllgor Iaith. Fodd bynnag, yn gryno, ein prif ddatrysiad oedd symleiddio'r asesiad ar-lein fel ei fod yn fwy perthnasol i'n gweithwyr llaw a'i ddisbarthu i bob un ohonynt yn unigol gyda llythyr o esboniad gan y Pennaeth. Fe wnaed hyn a bu'n rhaid i'r gweithwyr lofnodi eu bod wedi ei dderbyn. Fodd bynnag, yn anffodus, nid oedd y canlyniad mor llwyddiannus ag yr oeddem wedi'i obeithio. Roedd y gyfradd ddychwelyd yn parhau i fod yn isel, er gwaethaf ymdrechion y rheolwyr ac arweinwyr tîm i annog y gweithwyr i ymateb. Fe gynyddodd y lefel ymateb o 25% i 39% o ganlyniad i'r ymarferiad; serch hynny, roedd yn parhau i fod y gyfradd ymateb isaf o holl adrannau'r Cyngor.

Fe gododd y lefel ymateb i 58% yn dilyn trosglwyddo'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu i'r Adran Amgylchedd ym mis Medi 2022. Fodd bynnag, roedd dal ymhlith y gyfradd ymateb isaf o holl Adrannau'r Cyngor. Roedd dros 96% o staff yr Adran a oedd wedi ymateb yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Er bod hyn yn galonogol ac yn adlewyrchu dyhead yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith ymhlith ein staff, nid oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol. Felly, aeth ati i gynnal ymarferiad cynhwysfawr er mwyn troi'r sefyllfa o gwmpas. Y cam cyntaf oedd adnabod yr aelodau staff rheini nad oeddent eisoes wedi ymateb i'r asesiad a'u grwpio i'w gwasanaethau a'u timau unigol. Yna, anfonwyd rhestrau o'r staff perthnasol at y rheolwyr a'r arweinwyr tîm priodol gan ofyn yn syml a oedd yr unigolion yn cyrraedd eu dynodiad iaith ai peidio. Cymerodd thua tri mis i gael y data yn ôl. Ond, roedd yr ymarferiad yn hynod llwyddiannus ac, erbyn hyn, mae lefel ymateb yr Adran wedi codi i 95.64 %. O'r nifer sydd wedi cwblhau asesiad, dim ond 13

aelod o staff, sef 3.11 %, sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. O'r rhain, mae 4 eisoes yn dilyn cwrs hyfforddiant sgiliau Cymraeg ac eraill wedi, neu am gael, ymgynghoriad un i un efo'r Swyddog Dysgu a Datblygu Cymraeg er mwyn eu cefnogi i gyrraedd y dynodiadau iaith.

Ddylid nodi fod YGC wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot ar gyfer prosiect dynodiadau iaith a gwnaed ymdrech fawr ar y pryd i geisio sicrhau bod pob aelod o staff yn llenwi'r holiadur hunanasesu. Mae'r egwyddorion a osodwyd bryd hynny wedi parhau gyda'r Gwasanaeth ac, erbyn hyn, mae cwblhau'r holiaduron bellach yn rhan annatod o'u trefniadau penodi. Cyn uno a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, roedd eu cyfradd ymateb i'r holiadur yn 100% ac mae'n parhau felly hyd heddiw.

ii. Rhwystrau

Gan fod yr Adran yn gweithredu yn y diwydiant peirianyddol sy'n cael ei ystyried yn un Saesneg, mae'n gallu bod yn anodd cyflawni gwasanaeth llawn ar lafar yn y Gymraeg. Mae hyn oherwydd yr angen i weithio gydag asiantaethau fel Llywodraeth Cymru, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati.

Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r ffurflenni safonol ar gyfer contractau peirianeg wedi'u hysgrifennu yn Saesneg. Mae'r un peth yn berthnasol i'r mwyafrif o'r manylebau peirianeg a chodau ymarfer cenedlaethol a ddefnyddiwn.

Yn ogystal, oherwydd Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (sydd yn disodli'r Official Journal of the European Union - OJEU), cawn ond hysbysebu contractau gwerth uchel yn y Saesneg (cynlluniau neu wasanaethu mawr dros drothwy pris penodol).

Mae'r Adran yn ymfalchïo ei fod yn gallu cynnig gwasanaeth sydd bron yn gwbl Gymraeg i'n trigolion. Fodd bynnag, gall fod yn anodd recriwtio staff sy'n bodloni dynodiad iaith y swydd yn llawn i rai rolau. Mae hyn yn wir hyd yn oed i swyddi gyda lefelau ieithyddol elfennol.

iii. Canmoliaeth a Chwynion

Roedd yn amlwg o'r adborth a gawsom yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni bod gwerthfawrogiad mawr, nid yn unig i'r gwasanaeth a gyflwynir i'n trigolion, ond hefyd i ddefnydd a'r hyrwyddiad o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Roedd hyn yn galonogol ac yn cadarnhau ein bod ar y llwybr cywir yn ein hagwedd at yr iaith.

O ran cwynion, nid yw'r Adran wedi derbyn llawer o feirniadaeth am ein defnydd o'r iaith. Er hynny, rydym wedi cael ein beirniadu ar rai achlysuron am ganiatáu i gontractwyr allanol sy'n gweithio ar ran y Gwasanaeth Cynnal Ffyrdd ddefnyddio arwyddion rhybudd uniaith Saesneg ar safleoedd. Fodd bynnag, prin yw'r rhain ac maent yn cael eu datrys yn syth ar ôl i ni gael gwybod amdanynt.

Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu

Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?

Ateb:

Yn aml, mae gwaith da ein staff yn cael ei gymryd yn ganiataol ac mae'r unig adborth a gawn yn negyddol o ganlyniad i rywbeth yn mynd o'i le (sy'n aml allan o'n rheolaeth). Yn hanesyddol, mae gwasanaethau fel Cynnal Ffyrdd a Glanhau Strydoedd wedi bod yn dawedog i hyrwyddo eu hunain a chodi ymwybyddiaeth trigolion o'r gwaith y maent yn ei wneud. O ganlyniad, rydym wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar dynnu sylw at waith rhai o'n gwasanaethau ar gyfryngau cymdeithasol, gyda fideos a thestun dwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg clir, fel bod trigolion yn ymwybodol o'r ymdrechion a wneir i gadw eu cymunedau'n ddiogel a thaclus. Mae hyn wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac, yn ogystal â hysbysu'r cyhoedd o'u gwaith, mae wedi ennyn balchder yn ôl yn y gweithlu ac wedi atgyfnerthu'r neges eu bod yn darparu gwasanaeth hanfodol i drigolion Gwynedd. Mae'n debyg bod Adrannau a Gwasanaethau eraill yn yr un sefyllfa lle nad yw eu gwaith caled yn cael ei werthfawrogi. O ganlyniad, ni fyddai'n gwneud unrhyw niwed iddyn nhw hyrwyddo eu hunain fel bod y cyhoedd yn gwerthfawrogi bod eu harian treth yn cael ei wario'n effeithiol ac yn effeithlon.